# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU DYDD IAU, 25 TACHWEDD 2021

**YN BRESENNOL:**

**Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau**

Y Cynghorwyr: Peredur, Jenkins, John P Roberts, Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, Ioan Thomas, Robin Williams (Cynrychiolydd Cyngor Ynys Môn) a Goronwy Edwards (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy)

**Aelodau'r Bwrdd Pensiwn**

Aled Evans, H Eifion Jones, Sioned Parry, Osian Richards, Huw Trainor a Sharon Warnes

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr**

Kate Jackson - Heddlu Gogledd Cymru, Dave O'Neil - CVSC, Marc Jones - Cyngor Sir Ynys Môn, Linda Jones - Medrwn Mon, Amanda Davies - Byw'n Iach Nia Jones - Cwmni Fran Wen, Tina Earley - Cyngor Tref Bae Colwyn, Josef Bunton - Cyngor Conwy, Tony Walter - Cyngor Conwy, Geraint Owen - Menter Môn, Diana Burns - Cyngor Conwy, Ieuan Williams - Cwmni Cynnal, Adele Gatt - Addysg Oedolion Cymru a Siân Owen, APCE.

**Eraill**

Dylan Clarke, Alison Shaw ac Alys Wardle

**Staff sy'n Gwasanaethu'r Gronfa (Cyngor Gwynedd);**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau), Gwenan Medi Williams (Uwch Swyddog Pensiynau), Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau), Glesni Jones (Uwch Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau), Owain Pritchard (Swyddog Systemau Uned Bensiynau), Sara Jones (Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys), Dafydd Richard Owen (Arweinydd Tîm Gweithredol), Jennifer Mowle (Uwch Swyddog Pensiynau), Malen Williams (Cymhorthydd Pensiynau), Wendy Owen (Cymhorthydd Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn gadeirydd am y cyfarfod.**

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Simon Glyn

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Croesawyd pawb i gyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn.

a) Cyflwyniad y Pennaeth Cyllid

Mynegodd bod 2020/21 wedi bod yn flwyddyn heriol gyda'r Gronfa wedi llwyddo i gyflawni dychweliadau cadarnhaol. Adroddwyd mai gwerth y Gronfa ar 31/03/2021 oedd £2,515.2 miliwn o gymharu â gwerth 31/03/2020 o £1,938.3 miliwn, gyda'r gwerthoedd wedi bownsio nôl a'r gronfa yn perfformio'n uwch na'r meincnod dros y cyfnod. Ategwyd bod perfformiad cryf y marchnadoedd ecwiti yn 2020/21 yn galonogol iawn, ac yn argoeli yn dda ar gyfer y prisiad nesaf.

Amlygwyd, allan o 100 o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y Deyrnas Unedig, bod perfformiad 2020/21 Cronfa Bensiwn Gwynedd yn 16eg, gyd chynnydd mewn gwerth yr asedau o 29.3% yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd o 22.7%. Nodwyd hefyd, wrth edrych dros y tymor hir, bod perfformiad cymharol y Gronfa wedi gwella yn gyson, wrth symud o'r 46ain safle dros yr 20 mlynedd ers 2001, i fod yn 20fed dros y 3 blynedd diwethaf.

Wrth drafod Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), adroddwyd bod y cydweithio yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017. Ers y cyfnod clo, amlygwyd bod holl ddigwyddiadau'r bartneriaeth wedi bod yn rhithiol, gyda gwaith yn parhau, cronfeydd newydd wedi'u lansio, a nifer o ddigwyddiadau wedi cymryd lle. Adroddwyd y bod gan Cronfa Bensiwn Gwynedd fuddsoddiadau mewn pump o is-gronfeydd PPC erbyn diwedd Tachwedd 2021, gyda buddsoddiadau mewn ecwiti byd-eang, incwm sefydlog a marchnadoedd datblygol.

Atgoffwyd pawb o'r buddion sydd wedi eu hennill o fod wedi ymuno a PPC, sydd yn cynnwys ehangu cyfleodd buddsoddi drwy ddefnyddio amryw o reolwyr buddsoddi portffolio, a lleihad mewn ffioedd. Ym mis Chwefror 2019, sefydlwyd dwy is gronfa (Global Growth a Global Opportunities) gyda buddsoddiad cychwynnol o £303m ymhob cronfa. Erbyn hyn, gyda'r buddsoddiadau wedi bod yn y cronfeydd ers dros ddwy flynedd a hanner, gellid dechrau mesur perfformiad yn ystyrlon. Mynegwyd bod y cronfeydd wedi perfformio yn eithriadol, gyda Global Growth wedi dychwelyd 3.4%, a Global Opportunities 2.0% yn uwch na'r meincnod ers y cychwyn.

Trosglwyddwyd elfen o fandad ecwiti Fidelity (£166m) i is-gronfa Multi Asset Credit PPC yng Ngorffennaf 2020, a £291m o fandad Insight i is-gronfa Absolute Return Bond PPC yn Hydref 2020. Er yn gynnar i asesu perfformiad y cronfeydd hyn, nodwyd bod eu perfformiad wedi bod yn uwch na'r meincnod ers eu sefydlu. Ym mis Hydref 2021, trosglwyddwyd y buddsoddiad marchnadoedd datblygol i gronfa newydd PPC gyda 6 rheolwr, yn cynnwys Bin Yuan sy'n arbenigo yn Tsiena. Erbyn Tachwedd 2021, mae 83% o asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi'u pwlio gyda PPC.

Wrth drafod buddsoddi cyfrifol, sy'n faes blaenoriaeth gan y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiynau, nodwyd bod y Cyngor wedi rhyddhau datganiad yn Chwefror 2021

gyda diweddariad yng Ngorffennaf 2021. Cyfeiriwyd at Gynhadledd COP26 a gynhaliwyd yn ddiweddar, lle cafwyd trafodaethau rhwng gwledydd y byd am sut i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Cyfeiriwyd hefyd at Wythnos Hinsawdd Cymru ar 22-26 Tachwedd. Er mai siomedig oedd diweddglo'r gynhadledd COP26, amlygwyd bod Cronfa Gwynedd yn parhau i symud i'r cyfeiriad cywir ac fe amlygwyd enghreifftiau o ddatblygiadau buddsoddi cyfrifol ym mhob un o'r cronfeydd perthnasol. Tynnwyd sylw at yr asesiad 'GRESB' (Global Real Estate Sustainability Benchmark) sy'n mesur sut mae rheolwyr buddsoddiadau mewn eiddo yn ystyried ac adrodd ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ('ESG').

Ategwyd bod bodolaeth y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (Task Force on Climate-related Financial Disclosures - TCFD) yn credu bod gwell gwybodaeth yn caniatáu i gwmnïau ymgorffori risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu prosesau rheoli risg a chynllunio strategol. O ganlyniad, maent wedi argymell pedwar thema: llywodraethu, strategaeth, rheoli risg a metrics a thargedau. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Gronfeydd mewn dwy ffordd – yn gyntaf drwy'r cwmnïau rheoli asedau a ddefnyddir, ac wedyn drwy fframwaith adrodd i'r Cronfeydd fel Gwynedd. Bydd y drefn yn gorfodi pawb i ddatgan rhesymeg yn safonol ac y bydd cynlluniau pensiwn gydag asedau dros £1 biliwn yn dechrau mesur a phrofi gyda'r metrics o Hydref 2022 ymlaen.

Yng nghyd-destun prisiad y Gronfa, tynnwyd sylw at yr amserlen gyda bwriad o gwblhau'r gwaith rhwng rŵan a Haf 2022. Nodwyd y bydd angen cydweithrediad y cyflogwr wrth ddilysu'r data. Bwriedir hysbysu cyflogwyr o'u cyfraddau cyfrannu erbyn Ebrill 2023 mewn Fforwm Cyflogwyr yn Hydref 2022,

Gweinyddiaeth Pensiynau:

Yn ystod 2020/21 adroddwyd bod y system 'Fy Mhensiwn Ar-lein' wedi mynd o nerth i nerth gyda nifer fawr o aelodau yn gwneud defnydd o'r safle dros y cyfnod clo. Nodwyd bod aelodaeth 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn cynyddu'n flynyddol gydag oddeutu 16,000 wedi cofrestru hyd yma. Ategwyd bod oddeutu 500 aelod yn gwneud defnydd o'r wefan pob mis a gwaith yn parhau i geisio cynyddu'r aelodaeth ac o annog cyflogwyr i hyrwyddo'r safle i sicrhau bod staff yn defnyddio'r gwasanaeth.

Adroddwyd ar ddefnydd system *i-Connect* sydd yn diweddaru data tâl a chyfraniadau ar y system yn fisol. Ategwyd bod *i-Connect* yn darparu buddion sylweddol i aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) drwy gyflwyno data clir, cywir ac amserol a bod 100% o gofnodion aelodau yn cael eu diweddaru trwy'r system bellach. Diolchwyd i'r holl gyflogwyr am ddefnyddio'r system.

Tynnwyd sylw at Arolwg Boddhad Aelodau sydd yn cael ei anfon at aelodau'r Gronfa ar ddiwedd pob proses, e.e. ymddeoliadau. Y bwriad yw derbyn barn ar ansawdd y gwasanaeth, a staff yr Uned Gweinyddu Pensiynau. Adroddwyd bod dros 98% o aelodau unai yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth o safon uchel, a bod 98.25% o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan y staff o safon uchel. Er mwyn cyflawni'r sgoriau uchel hyn, nodwyd bod cydweithrediad y cyflogwyr yn hanfodol, a diolchwyd i'r cyflogwyr am eu parodrwydd i ddarparu'r wybodaeth yn brydlon.

Yng nghyd-destun staffio, nodwyd bod pedwar aelod o'r tîm wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn Gradd Sylfaen mewn Gweinyddu a Rheoli Pensiynau, cymhwyster sy'n sicrhau dealltwriaeth fanwl o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth

Leol a sgiliau rheoli.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol cafwyd y cwestiynau a'r ymatebion canlynol:

- Ynglŷn â defnydd metrics TCFD a'r gobaith o ddechrau'r gwaith ym mis Hydref 2022, pryd bydd modd adrodd ar y canfyddiadau?
*Nodwyd nad oedd sicrwydd o'r drefn ac y bydd angen amser priodol i gofnodi data a sicrhau data cymharol. Awgrymwyd y gall hyn gymryd hyd at 12 mis cyn y gellid rhannu cymariaethau defnyddiol.*

- Ynglŷn â chefndir y 'TCFD', holwyd os roedd y tasglu yn grŵp yn un tasg a gorffen?
*Nodwyd bod y grŵp wedi ei sefydlu gan gorff rhyngwladol, sef y Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol (FSB), a bod yr FSB wedi gofyn i'r TCFD barhau â'i waith i hyrwyddo a monitro cynnydd yn y modd y mae cwmnïau'n gweithredu ar ei argymhellion.*

- Ynglŷn â gweithredu 'tros-haen lleihau carbon', a sylw byddai hyn yn gallu amddiffyn buddsoddiad ag allyriadau, a holwyd oni fyddai'n haws tadfuddsoddi yn gyfan gwbl o gwmnïau ag allyriadau uchel, megis Shell?
*Cytunwyd gyda'r amcan amgylcheddol sylfaenol, ond eglurwyd bod yr ateb yn llawer mwy soffistigedig na dewis dadfuddsoddi. Ategwyd bod ymgysylltu yn chwarae rôl bwysig a bod modd o symud i'r cyfeiriad cywir drwy ddylanwad. Tra byddai'n anodd hidlo cwmnïau mawr allan o'r portffolio, mae'r drefn tros-haen yn lleihau buddsoddiad mewn cwmnïau sydd ag ôl troed carbon.*

- Mewn ymateb i bryder bod cynnydd mewn dadfuddsoddi yn araf e,e, y Gronfa yn parhau i fuddsoddi gyda Blackrock sydd â buddsoddiadau tanwydd ffosil, nodwyd na ellid dylanwadu ar yr hyn y mae Blackrock yn ei wneud ar ran buddsoddwyr eraill, ond bod Gwynedd yn dylanwadu ar yr hyn y mae'n dewis buddsoddi gyda Blackrock. Adroddwyd bod 12% o Gronfa Gwynedd wedi'i fuddsoddi yng nghronfa carbon isel Blackrock, sydd yn sgrinio tanwydd ffosil.

Diolchwyd i holl staff y Gronfa am gyflawni eu gwaith a'u dyletswyddau yn broffesiynol iawn. Gwerthfawrogwyd yr holl waith sydd yn cael ei wneud er budd pensiynwyr presennol y Gronfa ac i'r dyfodol.

Amlygwyd bod Mr Dafydd Edwards, yn ymddeol yn hyblyg o'i swydd fel Pennaeth Cyllid y Cyngor o fis Ionawr, ond y byddai'n parhau am 18 mis fel Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn. Dymunwyd ymddeoliad hyblyg hapus iddo.

**PENDERFYNWYD DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2020/21**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.00 y.b.

**CADEIRYDD**